YSGOL GYMRAEG
CADW IAITH CADW GWLAD
BRYN Y MÔR

# Tymor yr Haf 2018 – Dosbarth Derbyn Mrs Jenkins



Thema'r tymor yw:

## Brwydr y Dinosoriaid

Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Datblygu ein sgiliau cynhyrchu animeiddiad
- Datblygu ein dealltwriaeth o gyfathrebu ar-lein

**Addysg Grefyddol:**

- Dysgu am bobl sy'n ein helpu

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am wahanol fathau o ddinosoriaiad ac am rannau o'u cyrff
- Dysgu am lysysyddion a chigysyddion
- Dysgu am y gair *diflanedig* a'i ystyr

**Datblygiad Corfforol**

- Datblygu sgiliau echddygol bras, sgiliau llawdrin manwl a chydsymud llaw-llygad drwy symud fel deinosoriaid, creu ffosilau a modeli o ddeinosoriaid

**Datblygiad Creadigol**

- Gwneud 'ffosilau' ein hunain
- Dysgu caneuon a rhigymau am ddinosoriaid
- Mynegi ein hunain yn greadigol drwy symud ein cyrff i gerddoriaeth dinosor

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Chwarae gemau i ddatblygu sgiliau canolbwyntio
- Mynegi hoffterau a diddordebau personol a siarad am ein hoff ddeinosor neu ein model
- Dod yn fwy annibynnol a hyderus yn ein dysgu
- Gweithio gyda'n gilydd fel pâr i wneud model o ddeinosor

**Ymweliadau/Ymwelwyr**

Deinosor 'go iawn' yn ymweld â'r ysgol **24/4/18**

**Cofiwch ymweld â www.yggbrynymor.co.uk 'adran y plant – tudalennau dosbarth' am fwy o fanylion.**

**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd! @YGGBYMR.Jenkins**

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Chwarae rôl *Ditectifs Deinosoriaid*
- Gwrando ar lawer o straen a cherddi sy'n ymwneud â'r thema
- Dysgu caneuon, rhigymau a hwiangerddi
- Gweithgareddau *Tric a Chlic* ac *Iaith ar Daith*
- Mynegi eu hunain drwy wneud marciau, tynnu lluniau ac ysgrifennu cychwynnol

**Datblygiad Mathemategol**

- Datblygu ein dealltwriaeth o iaith fathemategol drwy chwarae rôl a chwarae gemau
- Canu caneuon ac adrodd rhigymau rhif
- Cyfrif, trefnu cymharu a dosbarth gwrthrychau
- Datrys problemau syml yn ymarferol
- Dysgu adnabod ac ysgrifennu rhifau
- Ymchwilio i arian, fesurau, siâp a phatrwm